

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. CANOLFAN DDŴR ARFAETHEDIG**

Derbyn adroddiad cynnydd gan Mr Jamie Groves a Mr Russell Vaughan mewn perthynas â'r parc dŵr arfaethedig.

**3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – TACHWEDD 2017**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR  
CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**5. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MÂN (EBRILL 2017 – MEDI 2017)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**6. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2017/18 ADNEUO ARIAN**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad ar y cyd Clerc y Dref/Swyddog ariannol (copi'n amgaeëdig).

**7. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Ymhellach i gofnod rhif 81 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Tachwedd 2017, penodi cynrychiolwyr (2) i Fwrdd Prosiect Glannau Cyngor Sir Ddinbych.

**8. CYLCHLYTHYR Y CYNGOR TREF**

Ymhellach i gofnod rhif 78 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Tachwedd 2017, cytuno'r gofynion ar gyfer y cylchlythyr cynnar arfaethedig a chyfarwyddo'r Is-bwyllgor Cyfathrebu i fynd ati i'w baratoi.

**9. CYFARFODYDD WEDI EU TREFNU AR GYFER 3YDD IONAWR 2018**

Gofyn am awdurdod i ganslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio sydd i'w cynnal ar 3ydd Ionawr 2018 a gohirio unrhyw fusnes brys i gyfarfod y Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio i'w cynnal ar 17eg Ionawr 2018.

**10. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**12. CYMDEITHAS GYMUNEDOL Y RHYL – HAWL RHAGBRYNU**

Cadarnhau'r camau a gymerwyd gan Glerc y Dref ar ôl cysylltiad gan Gymdeithas Gymunedol y Rhyl i'r Cyngor Tref gadarnhau nad oedd yn dymuno defnyddio ei hawl rhagbrynu mewn perthynas â Chanolfan Gymunedol Wellington.

**13. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Ystyried, newid a chymeradwyo argymhellion Cyllideb Flynyddol 2018/19 (copi'n amgaeedig) y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i'w argymhell i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 20fed Rhagfyr 2017, ac i argymhell praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019.

**[Atgoffir yr Aelodau y medrent, ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod, ofyn am wybodaeth fanwl bellach ar y ffigurau neu'r materion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd o bryder gyda Chlerc y Dref neu Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol/Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol]**

**14. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**15. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.